# Diogelu Cymru gyda'n Gilydd.

## Penawdau Newyddion

### Bydd 130,000 o bobl yn parhau i warchod eu hunain

Bydd bron i 130,000 o bobl yn derbyn llythyr oddi wrth Brif Swyddog Meddygol Cymru yr wythnos hon yn amlinellu'r cyngor diweddaraf er mwyn eu diogelu rhag y coronafeirws.

### Diwrnod Amgylchedd y Byd – Arian newydd i natur yn helpu cymunedau i fraenaru'r tir ar gyfer y Gymru rydym am ei gweld ar ôl Covid-19

I ddathlu Diwrnod Amgylchedd y Byd, mae Llywodraeth Cymru yn creu dwy gronfa newydd fydd yn helpu pobl ledled y wlad i greu lleoedd ar gyfer natur yn eu cymunedau, unwaith y cawn fynd heibio'r pandemig hwn.

### Staff mewn cartrefi gofal i gael £500 yn ychwanegol

Cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, y bydd staff ceginau a staff domestig mewn cartrefi gofal yn cael y £500 ychwanegol a addawyd i staff gofal cymdeithasol.

### Datganiad Ysgrifenedig: Coronafeirws (COVID-19) – Diweddariad Gwarchod – Gwarchod ar ôl 15 Mehefin

Yn wreiddiol, cynghorodd Prif Swyddog Meddygol Cymru'r rhai a oedd fwyaf agored i effeithiau mwyaf difrifol COVID 19 i'w gwarchod eu hunain am gyfnod o 12 wythnos. Daw'r cyfnod cychwynnol o 12 wythnos i ben ar 15 Mehefin ac mae Prif Swyddog Meddygol Cymru bellach wedi cadarnhau'r camau nesaf ar gyfer y grŵp hwn o bobl.

### Addysg bellach: coronafeirws

Gwybodaeth am addysg bellach ac addysg uwch yn ystod y pandemig coronafeirws.

### Parhau i gefnogi pobl ddigartref yn ystod pandemig y coronafeirws: canllawiau i awdurdodau lleol

Canllawiau i helpu sut i gefnogi a rhoi cartref i'r rheiny sy'n ddigartref ond sydd wedi cael llety yn ystod pandemig y coronafeirws.

## Ap newydd yn hanfodol wrth ymweld â chanolfan ailgylchu

Mae Zipporah, cwmni digidol o Gaerdydd, wedi lansio ap trefnu ymweliadau ar-lein di-dâl i helpu Cyngor Bro Morgannwg i ailagor ei ganolfannau ailgylchu ac i leihau amserau aros i'r cyhoedd.

## Pwyllgor Lles Anifeiliaid (AWC): barn ar faterion lles anifeiliaid sy'n gysylltiedig â coronafirws (COVID-19)

Adroddiad gan yr AWC ar effeithiau pandemig COVID-19 ar les anifeiliaid.

## Cynllun Cefnogi'r Sector Llaeth yn agor ar gyfer ceisiadau

Cafwyd cadarnhâd heddiw gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, y bydd ceisiadau ar gyfer y cynllun newydd i roi cymorth i'r diwydiant llaeth yng Nghymru yn agor ar 18 Mehefin, i gefnogi'r ffermwyr yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan yr amodau eithriadol diweddar o fewn y farchnad oherwydd COVID-19.

## Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith Gweithredu COVID-19 GIG CYMRU – Cynlluniau'r Chwarter Cyntaf

Cyhoeddwyd Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ar 6 Mai 2020.

## Teithio a thrafnidiaeth: cyngor

Gwybodaeth i weithwyr allweddol a phob teithio hanfodol arall.

## Ein dealltwriaeth ddiweddaraf am COVID-19 mewn perthynas â phlant ac addysg

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli ein dealltwriaeth ddiweddaraf am COVID-19 mewn perthynas â phlant ac addysg.

## Ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19)

Data a'r dadansoddiad diweddaraf ar effaith coronafeirws ar gymdeithas yng Nghymru.

## Cymorth i ddarparwyr gofal plant: y coronafeirws (COVID-19)

Cynllun cymorth gofal plant, benthyciadau, grantiau a chefnogaeth i ddarparwyr gofal plant.

## Canllawiau ar gyfer y gweithle i gyflogwyr a chyflogeion: COVID-19

Canllawiau i gyflogwyr a gweithwyrgadw'n ddiogel yn y gweithle yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).

## Datganiad y Prif Swyddog Meddygol ar yr adolygiad 21 diwrnod: 28 Mai 2020

Cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch adolygiad 21 diwrnod cyfyngiadau'r coronafeirws gan Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol.

## Cynadleddau i'r wasg dyddiol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cynhadledd i'r wasg am coronafeirws yn ddyddiol am 12.30pm, gyda chyfieithydd BSL. Mae modd gweld y cynadleddau yn fyw ar sianel Twitter @LlywodraethCym, BBC One Wales ac S4C.

## Astudiaeth Symptomau COVID

Helpwch ni i ymladd coronafeirws trwy adrodd ar eich iechyd yn ddyddiol, hyd yn oed os ydych chi'n teimlo'n iawn.

Gallwch chi helpu'r GIG yn y frwydr yn erbyn y coronafeirws drwy gwblhau arolwg iechyd dyddiol ar yr **ap Astudiaeth Symptomau COVID**. Mae'r ap hwn yn addas ar gyfer pawb, nid i'r unigolion sydd â symptomau yn unig.

Bydd yr app yn ein helpu i ddeall symptomau a lledaeniad COVID-19. Drwy ateb rhai cwestiynau cyflym, gallwch chi ein helpu i gynllunio ein hymateb i coronafeirws.

Ni fyddwn yn rhannu eich atebion y tu hwnt i'r GIG a sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r GIG i ymateb i'r coronafeirws.

# Profi, olrhain a diogelu

Mae ymgyrch ar y gweill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr allweddol o strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth

ddiweddara am y strategaeth, gan gynnwys canllawiau i gyflogwyr, ar y wefan. (**https://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus**).Mae deunydd fideo wedi cynhyrchu i ddefnyddio mewn ymgyrchoedd ac i rhanddeiliaid rhannu ar ei sianelu. Mae modd i chi lawrlwytho'r **deunydd digidol fan hyn** a byddem yn gwerthfawrogi os fyddech yn rhannu ar eich sianelu cymdeithasol, er mwyn rhannu gwybodaeth am y strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu.

## Gwybodaeth

### Addysg a gofal plant

Canllawiau ar coronafeirws i rieni, pawb sy'n gweithio mewn addysg a darparwyr gofal plant

### Busnesau a chyflogwyr

Cymorth i helpu busnesau a sefydliadau'r trydydd sector yr effeithiwyd arnynt gan y coronafeirws

### Cyngor iechyd

Aros gartref, hunanynysu, cael cefnogaeth fel person eithriadol o fregus

### Gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol

Canllawiau'r coronafeirws ar gyfer y GIG a phobl sy'n gweithio mewn gofal cymdeithasol, cymunedol a phreswyl

### Tai

Canllawiau i landlordiaid, cartrefi mewn parciau (symudol) a gwasanaethau cysgu allan yn ystod y pandemig coronafeirws

## Teithio

Cyngor am y coronafeirws i bobl sy'n dod nôl o wlad dramor neu'n bwriadu teithio

## Gwirfoddoli (trydydd sector)

Gwirfoddoli yn ystod pandemig y coronafeirws, cymorth i'r trydydd sector

## Gwasanaethau cymunedol

Cynllunio, tân, cam-drin domestig a thrais rhywiol

## Swyddi, sgiliau a chefnogaeth ariannol

Help gyda budd-daliadau, i aros yn y gwaith a chael sgiliau newydd

## Deunydd marchnata digidol

Deunydd marchnata gan gynnwys posteri a dogfennau hygyrch.